Rhestr o Feiblau ar gyfer pob oed

Detholiad o'r Beiblau a'r Beiblau Lliw sydd ar gael ar gyfer plant a ieuenctid. Rhain i gyd ar gael o'ch siop lyfrau leol neu ar y wê o www.gwales.com

Cyngor Ysgolion Sul







Beibl Bach Stori Duw £12.99
Beibl lliwgar newydd i blant 5–8 oed yn ein harwain trwy'r Beibl, gan gyflwyno'r stori fel un stori, gan esbonio sut mae'r cyfan yn rhan o stori fawr Duw. Lluniau trawiadol a diwyg ffres.

Hefyd ar gael ...

DVD 1: yn cyflwyno 11 stori o'r Hen Destament, wedi eu hanimeiddio, yn cynnwys hanesion am Adda ac Efa, Arch Noa a Thŵr Babel, Abraham ac Isaac, Lea a Rachel, Joseff a Moses. £5.99

DVD 2: yn cyflwyno 10 stori o'r Hen Destament, wedi eu hanimeiddio, yn cynnwys hanesion am Y Deg Gorchymyn, Josua, Samuel, Dafydd, Goliath, Namaan, Eseia, Daniel, Jona, Esra a Nehemeia. £5.99

DVD 3: yn cyflwyno dwsin o straeon o'r Testament Newydd, wedi eu hanimeiddio, yn cynnwys hanesion am enedigaeth Iesu a'r Temtiad, Ioan Fedyddiwr, Gweddi'r Arglwydd a'r Bregeth ar y Mynydd, gwyrthiau Iachau Merch Jairus, Bwydo'r Pum Mil a Thawelu'r Storm, a Iesu yn croesawu plant ato. £5.99

DVD 4: yn cyflwyno 11 stori o'r Testament Newydd, wedi eu hanimeiddio, yn cynnwys hanesion am Sacheus, y Mab Afradlon, Eneinio traed Iesu, Y Swper Olaf, Gethsemane a'r Croeshoeliad, yr Atgyfodiad, yr Esgyniad a'r Pentecost, Tröedigaeth Paul a rhan o Lyfr y Datguddiad. £5.99

CD Sain: Casgliad o 4 CD sain yn cynnwys dros 40 o straeon Beiblaidd, sef yr holl straeon a gynhwysir yn y gyfrol Beibl Bach Stori Duw, yn cael eu darllen gan Eirian Wyn. £9.99







Beibl Bach i Blant £13.99
Cyfrol ddarluniadol hardd mewn lliw yn cynnwys dros 60 o storïau mwyaf poblogaidd yr Hen Destament a'r Testament Newydd, wedi eu haddasu ar gyfer plant ifanc.

Beibl Bach i Blant (argraffiad lledr gwyn arbennig) £15.99
Cyfrol hardd gain yn ddelfrydol i'w roi fel rhodd ar achlysur gwasanaethau bedyddio a chyflwyno plant.

Hefyd ar gael ...

Beibl Odl y Plant: Cyfrol ddarluniadol hardd yn cynnwys casgliad o 64 o gerddi beiblaidd o waith Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones, wedi eu seilio ar y straeon yn Beibl Bach i Blant. £7.99

DVD Hen Destament: 32 o ffilmiau 5 munud yn cynnwys prif straeon yr Hen Destament yn dilyn Beibl Bach i Blant. £9.99

DVD Testament Newydd: 32 o ffilmiau 5 munud yn cynnwys prif straeon y Testament Newydd yn dilyn Beibl Bach i Blant. £9.99

CD Sain: Casgliad o 6 CD sain yn cynnwys 64 o straeon Beiblaidd, sef yr holl straeon a gynhwysir yn y gyfrol Beibl Bach i Blant, yn cael eu darllen gan Aled Davies. £9.99

CD-ROM: CD-ROM yn cynnwys 64 cyflwyniad PowerPoint yn seiliedig ar Beibl Bach i Blant sy'n cynnwys dros 400 o luniau lliwgar. Adnodd hynod ddefnyddiol ar gyfer ysgolion ac Ysgolion Sul fel ei gilydd. £13.99

Beibl y Plant Lleiaf £12.99
Addasiad Cymraeg o gasgliad o ugain stori Feiblaidd gyda thestun syml wedi eu darlunio'n lliwgar, yn cynnwys deg stori yr un o'r ddau Destament; i blant 3–6 oed.

Beibl Newydd y Plant
£12.99
Beibl lliw newydd ar gyfer plant 5–8 oed. Dyma stori fawr y Beibl o'r Creu i'r Cadw, wedi ei hadrodd yn arbennig ar gyfer plant. Dewch i gyfarfod â'r cymeriadau hoffus 'ffrindiau beiblaidd' sydd ar bob tudalen. Mwynhewch storïau mwyaf cyfarwydd y Beibl gyda'ch gilydd – yn y cartref, yn yr ysgol a'r ysgol Sul, ac yn yr eglwys. Addasiad Cymraeg o *The Big Bible Storybook*.



Beibl Newydd y Storïwr
£12.99
Casgliad o straeon o'r Beibl i'w darllen yn uchel i blant. Mae'r gyfrol hon yn fodd i gyflwyno plant bach i brif ddigwyddiadau a chymeriadau'r Beibl, ac yn gosod sail ar gyfer eu gwybodaeth feiblaidd. Addasiad Cymraeg o *The Lion Storyteller Bible* gan Cynthia Saunders Davies.



Beibl Newydd y Storiwr CD £9.99
Pecyn o bedair cryno-ddisg yn cynnwys dros 70 o storïau Beiblaidd bywiog a ddarllenir gan Catherine Aran, Martyn Geraint, Mair Tomos Ifans a Wynford Ellis Owen, gyda thestun rhyddmig i annog plant i gyfrannu at y dweud.

Beibl Lliw Stori Duw
£12.99
Mae'r beibl hwn i blant yn cynnwys 365 o straeon, un ar gyfer pob diwrnod o'r flwyddyn. Ceir dyfyniadau o'r Beibl Cymraeg Newydd i gyd-fynd â phob stori, sy'n rhoi cyfle i ddarllenwyr brofi iaith ac arddull y testun hwnnw. Mae'r darluniau'n dehongli ac yn egluro, a'r gwyddoniadur hylaw yng nghefn y llyfr yn rhoi gwybodaeth am gyd-destun a chefndir y straeon.



Beibl Lliw y Teulu £14.99
Addasiad Cymraeg o gyfrol ddarluniadol lliw yn cyflwyno straeon cyfarwydd y Beibl, ynghyd â nodiadau esboniadol, mapiau a gwybodaeth gefndirol werthfawr am y Beibl ac am wlad Canaan, at ddefnydd yn yr Ysgol Sul, yr ysgol ddyddiol a'r cartref.



Beibl Lliw y Plant £17.95
Cyfieithiad Cymraeg o gyfrol ddarluniadol hardd yn ailadrodd storïau'r Beibl mewn iaith syml a chlir, ynghyd â lluniau lliw a nodiadau eglurhaol sy'n gosod y storïau yn eu cyd-destun.



Y Beibl Graffig £16.95
Addasiad Cymraeg deniadol o gyfrol ddarluniadol lawn yn adrodd holl ddrama a chyffro, llawenydd a loes hoff hanesion y Beibl; i blant o bob oed.

Beiblau rhodd o dan £5



Fy Meibl Bach i £3.99
Casgliad o brif storïau'r Beibl wedi'u hadrodd yn syml a'u darlunio'n lliwgar ar gyfer plant bach.

Fy Meibl i £2.50
20 stori o'r Hen Destament ac ugain o'r Testament Newydd wedi eu hysgrifennu mewn iaith syml ar gyfer plant ifainc. Darluniau lliwgar.



Fy Meibl Lliw Cyntaf
£3.99
Llyfr bwrdd lliwgar gyda handlen yn cynnwys 12 o storiau Beiblaidd. Addasiad Cymraeg o My Very First Bible.

Fy Meibl Lluniau £4.99
Addasiad Cymraeg o gyfrol liwgar a deniadol yn cyflwyno pytiau byrion o wybodaeth am ddwsin o gymeriadau Beiblaidd mewn iaith syml; i'w hadrodd i blant bach.



Fy Meibl Bach Cyntaf – Storïau o'r Beibl
£4.95
Argraffiad maint bychan o addasiad Cymraeg o lyfr llun-a-stori yn cynnwys casgliad o straeon Beiblaidd i blant bach, ynghyd â darluniau lliw deniadol a chyfeiriadau ar gyfer darllen pellach.



Beibl Chwilio a Chanfod
£4.95
Llyfr wedi ei gynllunio i gynorthwyo plant 1-3 oed i ddatblygu sgiliau dysgu sylfaenol megis cyfrif, adnabod lliwiau a siapiau ac ehangu geirfa, trwy gyfrwng gweithgareddau hwyliog wedi eu seilio ar straeon a chymeriadau o'r Beibl.

Llyfrau o storïau Beiblaidd o dan £10

Fy Meibl Bach
£5.99
Beibl lliwgar gyda handlen i'w gario, yn cynnwys 20 o storïau ar gyfer y plant lleiaf. Hefyd ar gael ar ffurf App ar gyfer teclynnau Apple ac Android.

Beibl Cyntaf y Plant Lleiaf
£9.99
Beibl bwrdd i'r plant lleiaf.

Beibl Lliw Dewis a Dethol
£4.99
Mae'r straeon yn y llyfr hwn wedi'u cymysgu! Bydd yn rhaid dod o hyd i'r cliwiau a throi'r tudalennau er mwyn cyfateb Noa gyda'i arch, a Dafydd gyda'i ffon dafl, a rhoi trefn ar rai o hoff straeon eraill y Beibl.

Beibl yr Arth Bach £7.99
Yng nghwmni arth fach deuir ar draws unarddeg o storiau o'r Beibl. Llyfr stori i blant 3-5 oed. Addasiad Cymraeg o Tiny Bear Bible.

Beibl Troelli a Dysgu £5.99
Llyfr lle caiff y plentyn gyfle i droelli olwynion i gwblhau'r lluniau yn y stori. Ceir hanesion am gymeriadau'r Hen Destament yn ogystal â hanes geni a bywyd yr Iesu.



Gruff ar Antur yn y Beibl
£7.99
Addasiad Cymraeg o lyfr darluniadol lliwgar yn portreadu anturiaethau'r bachgen direidus Gruff wrth iddo grwydro drwy'r golygfeydd mewn amrywiaeth o straeon Beiblaidd, gan ddysgu am yr hanesion, gyda chyfle i ddarllenwyr chwilio am wrthrychau gwahanol ym mhob llun; i blant 5-8 oed.

Llyfr Jig-So: Storïau o'r Beibl
£9.99
Addasiad Cymraeg o lyfr bwrdd o storïau Beiblaidd a jig-sos lliwgar tri darn ar ddeg yr un yn cyflwyno hanesion Adda ac Efa, Noa, Moses, Daniel, Jona a geni'r Iesu; i blant 3-6 oed.

Beibl Gweithgareddau y Plant Lleiaf £7.99
Beibl lliwgar yn cynnwys 40 o storïau ar gyfer plant 5-7 oed, ynghyd â gweithgaredd a phos ar bob stori.

Beibl Gweithgareddau y Plant £7.99
Beibl lliwgar yn cynnwys 40 o storïau ar gyfer plant 7-9 oed, ynghyd â gweithgaredd a phos ar bob stori.

Ar gyfer ieuenctid

beibl.net 365 o storïau o'r Beibl £14.99
Detholiad o gyfieithiad newydd cyffrous a chyfoes beibl.net. 365 o storïau – pob un ohonynt gyda llun lliw llawn a thestun o beibl.net.

Cofiwch hefyd am www.beibl.net ar y wê



Y Beibl Fesul Stori £9.99
Beibl lliw newydd ar gyfer ieuenctid 11–18 oed. Y Beibl: dyn yn lladd ei frawd; pobl yn ymladd am eu rhyddid; dyn da yn cael ei erlid a'i ladd; pobl yn cwffio dros heddwch a chyfiawnder; yr amhosibl yn digwydd dro ar ôl tro!
Mae bywyd yn ei gyfanrwydd yma! Darllenwch drosoch eich hunain. Y stori fwyaf erioed.



Y Beibl Fesul Llyfr £11.99
Cyflwyniad clir a chryno i bob llyfr yn y Beibl, wedi'i baratoi'n arbennig ar gyfer ieuenctid ac oedolion ifanc. Mae'n rhestru awdur, dyddiad, math o lyfr, prif gymeriadau, prif themâu a darllen pellach. Addasiad Cymraeg o The Bible Book by Book.

Her Fawr y Beibl £9.99
Beibl Lliw newydd i Blant yn gosod her i'w ddarllen mewn can niwrnod.

Cyfeirlyfrau Beiblaidd



Taith Trwy'r Beibl £6.99
Llyfr sy'n ein harwain trwy'r Beibl ar ffurf taith yn dilyn hanes cenedl Israel o'r creu hyd at yr Eglwys Fore.



Beth yw'r Beibl £6.99
Llyfr ffeithiol cynhwysfawr sy'n olrhain hanes y Beibl.

Llyfr Mawr o Ffeithiau am Iesu £9.99
Llyfr cynhwysfawr yn cynnig bob math o ffeithiau a hanes am Iesu.



Cydymaith Cryno i'r Beibl £12.99
Cyfeirlyfr defnyddiol yn rhoi arweiniad i holl lyfrau'r Beibl gyda golygfeydd o wlad yr Iesu a mapiau lliw.

Darganfod y Beibl £5.95
Llyfr gweithgarwch, gwybodaeth a stori yn esbonio'r Beibl.

Llyfr Mawr o Ffeithiau'r Beibl £5.95
Mynydd o wybodaeth sy'n dod â'r Beibl yn fyw.

Llawlyfr y Beibl i Blant £10
Arweinlyfr defnyddiol i'r Beibl, yn cynnwys ffeithiau ac adnodau i'w dysgu, gwybodaeth am bobl a bywyd y Beibl, amserlin, mapiau a darluniau lliw.



Antur Trwy'r Beibl £12.50
Cyflwyniad darluniadol lliw llawn i hanesion Beiblaidd mewn arddull fywiog ac iaith gyfoes, yn cynnwys pytiau byrion o wybodaeth hanesyddol ac esboniadol diddorol am ddigwyddiadau a chymeriadau'r Beibl.

Gan Gymdeithas y Beibl:
Y Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig
Clawr caled £15.95
Y Beibl Canllaw £25
Clawr cain £35
Print bras £17.50
Gyda mynegair £16.95
Testament dwyieithog £12.99
Testament a Salmau £11.99



beibl.net
Clawr caled £14.99
Print bras £24.99

Y Beibl mewn iaith sy'n hawdd i'w deall. Mae'n berffaith ar gyfer ysgolion, eglwysi a dysgwyr ac yn cynnwys adnoddau ychwanegol, gan gynnwys, Ble i droi am help, Amselin y Beibl, Geirfa, Mapiau a'r Calendr Hebreig.